# LLYN A GERDDI PARC Y RHATH



## GWERTHUSIAD O'R ARDAL GADWRAETH

CAERDYDD

CARDIFF
CAERDYDD

2008

# cynnwys

**Map 1 – Ffin Ardal Gadwraeth ac Erthygl 4 Mabwysiadwyd Ebrill 2008**

**1. CYFLWYNIAD ............................................**
1.1 Ardaloedd Cadwraeth
1.2 Gwerthusiadau
1.3 Cyd-destun y Polisi

**2. Y CYD-DESTUN HANESYDDOL ......................**
2.1Gwreiddiau Hanesyddol a Datblygiad yr Ardal

**3. ASESU CYMERIAD YR ARDAL........................**
3.1 Ansawdd Unigryw y Lle
3.2 Presenoldeb Adeiladau Tirnod a Nodweddion Tirwedd
3.3 Hierarchaeth Mannau Cyhoeddus a Phreifat
3.4 Deunyddiau Lleol neu Anarferol o Ansawdd Uchel yn y Treflun
3.5 Manylion Pensaernïol o Ansawdd Uchel
3.6 Tirlunio Caled a Meddal o Ansawdd Uchel

**4. ARDALOEDD Â CHYMERIAD ARBENNIG......**

**5. FFRAMWAITH AR GYFER GWEITHREDU......**
5.1 Cefndir
5.2 Prif Bwrpas y Gwerthusiad
5.3 Manteision y Gwerthusiad
5.4 Pwysau i Newid
5.5 Cydweithio i Sicrhau Canlyniadau

**6. ARGYMHELLION.........................................**

**7. YMGYNGHORIAD........................................**

Atodiad 1 - Canllaw i'r Rheiny sy'n Cynllunio Datblygiadau yn yr Ardal Gadwraeth
Atodiad 2 - Cyngor am goed a thirlunio yn yr Ardal Gadwraeth
Atodiad 3 - Adeiladau Rhestredig yn yr Ardal Gadwraeth
Atodiad 4 - Adolygu'r Ffin

Llyfryddiaeth a Chanllawiau

Diolchiadau

# Map 1


LAKE ROAD NORTH
LLANDENNIS ROAD
KEYES AVENUE
BEATTY AVENUE
LAKE ROAD EAST
LAKESIDE DRIVE
WILD GARDENS ROAD
JELLICOE GARDENS
CUNNINGHAM CLOSE
WOOLASTON AVENUE
HIGHFIELD ROAD
LAKE ROAD WEST
WINDERMERE AVENUE
CEFN-COED ROAD
LADY MARY ROAD
ULLSWATER AVENUE
KESWICK AVENUE
GRASMERE AVENUE
AMBLESIDE AVENUE
EASTERN AVENUE
FAIROAK ROAD
Ffin yr Ardal Gadwraeth
Adeiladau Rhestredig Statudol
Adeiladau Rhestredig Lleol
Parciau Hanesyddol

## 1.1 Ardaloedd Cadwraeth

Mae Ardaloedd Cadwraeth yn ardaloedd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig. Yr Awdurdod Cynllunio Lleol sy'n penderfynu dynodi ardal yn Ardal Gadwraeth, a hynny ar ôl asesu cymeriad yr ardal honno. Mae hyn yn aml yn golygu asesu mwy na'r adeiladau'n unig. Gall cynllun y ffyrdd, golwg y strydoedd, coed a mannau gwyrdd i gyd gyfrannu at ansawdd yr ardal. Mae dynodi ardal yn diogelu'r cymeriad hwn, ac er mwyn cyflawni hyn mae gan y Cyngor ragor o reolaeth dros ddymchwel, mân ddatblygiadau a diogelu coed. Dynodwyd Ardal Gadwraeth Llyn a Gerddi Parc y Rhath ym mis Tachwedd 1976.

## 1.2 Gwerthusiadau

Mae gan y Cyngor ddyletswydd i adolygu Ardaloedd Cadwraeth er mwyn nodi faint o newid a fu ers y dynodi, penderfynu a oes angen newid y ffiniau a nodi camau posibl ar gyfer gwella a diogelu'r ardal. Er mwyn rheoli'r broses hon, mae Strategaeth Ardal Gadwraeth yn nodi blaenoriaethau i'r Ddinas, a'r meini prawf sydd i'w defnyddio wrth asesu ardaloedd presennol a rhai newydd. Cytunwyd ar y Strategaeth yn 1997, a'i diweddaru ym mis Mawrth 2001.

## 1.3 Cyd-destun y Polisi

Rhan allweddol o'r gwaith o werthuso yw diffinio cymeriad yr Ardal Gadwraeth, a pharatoi arweiniad priodol. Gall polisïau eraill sy'n cyd-fynd â'r fframwaith cynllunio statudol gynorthwyo â'r gwaith hwn. Darperir hyn drwy Gynllun Datblygu Unedol Caerdydd, tan y bydd Cynllun Datblygu Lleol wedi cael ei baratoi.

# 2 y cyd-destun hanesyddol







- Cofeb Scott
- Tai ar Lake Road East
- Y Gerddi Botanegol

## 2.1 Gwreiddiau Hanesyddol a Datblygiad yr Ardal

Arweiniodd datblygiad cyflym Caerdydd fel porthladd o bwys yng nghanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg at gynnydd mawr yn nifer y tai, a hynny'n ei dro yn arwain at alw cynyddol o du'r cyhoedd am fannau agored i hamddena. Sefydlwyd 'Pwyllgor Parc y Rhath' gan Gorfforaeth Caerdydd i ddod o hyd i safle addas i barc, er mwyn ateb y galw hwn.

Edrychodd y Pwyllgor ar y posibilrwydd o greu parc ar nifer o safleoedd, ond heb fawr o lwyddiant tan 1887, pan brynodd 3ydd Ardalydd Bute 103 acer o dir, a hwnnw'n cynnwys nant yn llifo drwy dir corsiog. Rhoddwyd y tir gan yr Ardalydd er mwyn i'r dref allu ei ddefnyddio fel parc, ond roedd amodau ynghlwm â hynny. Un o'r rhain oedd bod yn rhaid i dirfeddianwyr lleol gyfrannu darnau bychain o dir am ddim. Cyfrannodd Arglwydd Tredegar 5 acer o dir, tra rhoddodd Mr. G. L. Clark, Mrs. Jackson a Syr Morgan Morgan 13 acer ychwanegol rhyngddynt. Amod arall oedd bod yn rhaid i Gorfforaeth Caerdydd ddarparu'r seilwaith er mwyn gallu adeiladu tai i fanteisio ar leoliad braf y parc newydd. Ym mis Gorffennaf 1889, dechreuodd y gwaith ar Barc y Rhath, ac ar yr un pryd, rhoddwyd y contractau cyntaf er mwyn adeiladu'r ffyrdd o'i amgylch.

Parc y Rhath oedd y parc cyhoeddus cyntaf yng Nghaerdydd, ac fe'i dyluniwyd gyda'r uchelgais o ddarparu amrywiaeth eang o gyfleusterau hamdden, cyfleusterau chwaraeon a chyfleusterau addysgol i drigolion. Cafodd y Parc ei gynllunio gan William Harpur, a benodwyd yn Syrfëwr y Fwrdeistref gan Gorfforaeth Caerdydd yn 1883. William Pettigrew, a benodwyd yn Brif Arddwr Corfforaeth Caerdydd yn 1891, a oedd yn gyfrifol am y gwaith plannu. Cofnodwyd y gwaith gosod cyntaf ar 15 Mawrth 1892, wrth greu border 100 llath ar ochr orllewinol yr Ardd Bleser. Yn niwedd 1892, cofnododd Harpur bod nifer fawr o goed wedi'u plannu ar y tir, gan gynnwys ar bedair o'r pum ynys ym mhen gogleddol y llyn. Erbyn 1894, roedd yr Ardd Bleser wedi'i chwblhau. Roedd y llwybr o amgylch y llyn wrthi'n cael ei adeiladu ac roedd rhannau o'r gerddi botanegol wedi'u gorffen. Roedd t gwydr a phedair pont wrthi'n cael eu hadeiladu a rhoddwyd 50 o gychod ar y llyn. Datblygwyd yr ardal wyllt ym mhen gogleddol y llyn ychydig yn ddiweddarach, ac fe'i hagorwyd yn 1896. Gosodwyd a phlannwyd y rhan uchaf, o'r enw Gerddi Llandennis yn wreiddiol, yn ystod gaeaf 1897-98. Roedd rheiliau yn amgylchynu'r ardal hon yn wreiddiol, ac ni chafodd ei hagor i'r cyhoedd tan 1923 ar ôl ehangu ffiniau'r fwrdeistref. Mae gan y Parc hyd heddiw holl elfennau parc trefol a dinesig o'r cyfnod. Er bod ei gynllun a'r planhigion wedi'u symleiddio, a nifer o'r adeiladau gwreiddiol wedi'u hailgodi, fe'i cydnabyddir yn un o'r parciau cyhoeddus gorau o ddiwedd cyfnod Fictoria ym Mhrydain. Mae'r Ymddiriedolaeth Ddinesig newydd roi Gwobr Baner Werdd iddo.


Unwaith y gosodwyd y llyn a'r parc, araf fu datblygiad y tai o'u hamgylch. Ychydig yn unig o ddatblygiadau sydd i'w gweld o amgylch y llyn ar fapiau'r arolwg Ordnans yn 1921, ac eithrio am 153-160 Lake Road West a dau eiddo sengl ym mhen deheuol Lake Road East. Mae'r un map yn dangos nifer o dai sengl ar dir helaeth yn ardal orllewinol Cefn Coed Road.

Fodd bynnag, erbyn 1947 roedd yr ardal wedi'i datblygu'n sylweddol, gyda'r tai yn ymestyn y tu hwnt iddi ar ffyrdd cyfochrog. Datblygwyd plotiau'n raddol mewn grwpiau neu barau, gydag arddull a maint y tai'n amrywio'n aml. Er

gwaethaf hyn, ceir llinell adeiladu gyffredin ar ddwy ochr y llyn, ac eithrio ar ochr ddeheuol Lake Road East. Yn y fan hon mae tai sengl mawr wedi'u lleoli'n uchel ar yr arglawdd sy'n edrych dros y llyn. Mae'r fynedfa i gerbydau o Lady Mary Road.

Adeiladwyd Eastern Avenue yn niwedd y 1960au ar hyd rhan y Rhath o hen reilffordd Bro Taf. Mae'r arglawdd yn gwahanu'r Gerddi Botanegol a'r Gerddi Pleser tua'r de.

## Map 2 1921 yr Arolwg Ordnans












- Mae'r tai ar Lake Road West yn amgylchynu'r llyn a'r parc
- Eastern Avenue
- Tower House,
- Cefn Coed Road

# 3 asesiad cymeriad







- Golygfeydd tua'r gogledd
- Cartref
- Waliau a chloddiau sy'n diffinio'r gerddi ac yn gefndir i'r ffordd

Mae nifer o nodweddion allweddol wedi'u nodi i gynorthwyo â'r gwerthusiad o'r ardal. Y rhain yw:

- Ansawdd unigryw y lle,
- Presenoldeb adeiladau tirnod a nodweddion tirwedd,
- Hierarchaeth mannau cyhoeddus a phreifat,
- Deunyddiau Lleol neu Anarferol o Ansawdd Uchel yn y Treflun
- Manylion pensaernïol o ansawdd uchel,
- Tirlunio Caled a Meddal o Ansawdd Uchel

Ceir dadansoddiad byr o bob un isod.

## 3.1 Ansawdd Unigryw y Lle

Mae'r ardal yn cynnwys Llyn Parc y Rhath a'r Gerddi Botanegol, ynghyd â'r tai sy'n edrych drostynt. Mae'n cynnwys hefyd y grŵp bychan o dai Edwardaidd ar Cefn Coed Road a'u gerddi helaeth. Mae'r llyn a'r gerddi gyda'u coed a'u llwybrau'n creu man agored rhagorol yng nghanol yr Ardal Gadwraeth, gyda'r llyn yn rhoi golygfeydd agored ac eang tua'r gogledd a'r de.

**Graddfa'r Adeiladau**: Mae'r tai sy'n edrych dros y llyn o gyfnodau gwahanol, ac mae iddynt gymeriadau gwahanol. Ond yn gyffredinol, tai deulawr ydynt a siâp yr adeiladau'n sgwâr.

**Maint y Plotiau**: Mae'r tai ar hyd pob ffordd wedi'u lleoli yn ôl mewn llinell adeiladu gyffredin, sy'n golygu bod y gerddi ffrynt yn cyfrannu'n sylweddol at gymeriad y strydoedd.

**Golygfeydd**: Ceir golygfeydd trawiadol ym Mharc y Rhath, a golygfeydd dros y llyn. Mae amlinell yr awyr o'u hamgylch a bryniau gogledd Caerdydd yn creu ffrâm atyniadol. Y llyn yw canolbwynt yr ardal.

Mae Eastern Avenue tua'r de a'r tanffyrdd i Lake Road East a West yn amharu'n sylweddol ar y golygfeydd. Mae'r traffig trwm ar hyd yr arglawdd uchel yn amharu ar y golygfeydd o'r gerddi rhosod.

**Patrymau Defnyddio**: Mae'r ardal o amgylch y parc yn ardal breswyl boblogaidd, er bod rhai o'r tai wedi'u rhannu neu wedi'u troi'n fflatiau.

## 3.2 Presenoldeb Adeiladau Tirnod

Er bod rhai adeiladau tirnod yn yr Ardal Gadwraeth, mae'r canlynol yn arwyddocaol yn y treflun ehangach ac ym mhanorama'r parc:

- Y tirnod amlycaf yw Cofeb Scott, sy'n coffáu ymdrech Scott i gyrraedd yr Antarctig. Mae'n ganolbwynt i'r llyn a'r gerddi, a gellir ei gweld o sawl man o amgylch y llyn.

- Ceir nifer o adeiladau mawr sy'n edrych dros y llyn, a'r rheiny sydd ag amlinell amlwg ar y to, tyredau a baeau yw'r mwyaf trawiadol. Maent yn cynnwys: 80-82, 86 Lake Road East, Cartref, a Tower House ar gornel Cefn Coed Road. I'r gorllewin o'r llyn, ceir grŵp bychan o

dai o'r 1920au, ar leoliad uchel uwchben y llyn. Mae gan y rhain nodweddion addurniadol hefyd. Yn y fan hon mae ffenestri bae, cladin teils a fframiau pren i gyd yn cyfuno i greu adeiladau trawiadol uwch y llyn.


- Nid adeiladau mawr yn unig yw'r tirnodau yn yr Ardal Gadwraeth. Ceiri nifer o adeileddau sy'n llai eu maint. Mae'r rhain yn cynnwys y pontydd rhestredig, y tŷ gwydr a'r tŷ cychod. Disgrifir bob un maes o law.

## 3.3 Hierarchaeth Mannau Cyhoeddus a Phreifat

Ceir ymdeimlad cryf o'r mannau cyhoeddus a'r mannau preifat yn yr ardal. Ceir waliau ffiniol o wahanol uchder rhwng y gerddi ffrynt a'r stryd, a'r rheiny fel arfer o gerrig neu frics coch cywasgedig. Mae cloddiau y tu ôl i rai ohonynt. Maent i gyd wedi'u gosod gan barchu ehangder glannau'r llyn, ac yn ffrâm i'r dirwedd a'r coetir hanesyddol.

Tua'r de o Cefn Coed Road, ceir newid yn y lefel ar ochr ddwyreiniol y llyn, ac mae hyn wedi arwain at newid yng nghyfeiriadedd y tai hefyd. Maent wedi'u gosod yn ôl ymhell o'r ffordd gyda therasau a lawntiau hir ar lethr, neu brysglwyni yn y ffrynt. Mae'r fynedfa i gerbydau o Lady Mary Road yn y dwyrain.

Mae'r Afon a'r Gerddi yn ffurfio rhan o goridor y Nant Fawr sy'n ymestyn o Barc y Rhath i'r wlad tu hwnt i Gyncoed.




Map 3

1948 yr Arolwg Ordnans









- Pren Addurnol
- Brics coch a brown
- Talcenni gyda fframiau pren
- Mae'r cyfan yn cyfrannu at amrywiaeth y steiliau pensaernïol









- Ceir amrywiaeth o steiliau pensaernïol, gyda'r tai cynharaf yn rhai o frics a cherrig Caerfaddon, gyda'r rendr diweddaraf mewn steil art deco neu ryngwladol.

## 3.4 Deunyddiau Lleol neu Anarferol o Ansawdd Uchel yn y Treflun

- Mae'r tai wedi'u hadeiladu mewn grwpiau yn hytrach nag ystadau, sydd wedi arwain at amrywiaeth yn y deunyddiau a'r arddulliau adeiladu yn yr Ardal Gadwraeth. Rendr a brics cywasgedig yw'r deunyddiau allanol mwyaf cyffredin, ac mae'r rhain wedi'u defnyddio mewn amryw o orffeniadau addurnol gwahanol, yn aml gyda fframiau pren ar y lloriau uchaf neu'r talcenni.

- Gellir gweld nodweddion haearn bwrw addurnol ar rai o'r adeiladau, ac fe'u defnyddir yn helaeth ar y portshys, y balconïau a'r ceiliogod gwynt.

- Ceir pren ar ffenestri, estyll tywydd, drysau a bargodion. Mae gan rai adeiladau bortshys pren a fframiau pren ar y talcenni a'r waliau.

## 3.5 Manylion Pensaernïol o Ansawdd Uchel

- Mae gan nifer o adeiladau dalcenni mawr gydag estyll tywydd trwm ac addurnol yn wynebu'r stryd. Mae'r talcenni wedi'u haddurno mewn nifer o ffyrdd gwahanol. Mae'r rhain yn cynnwys fframiau pren mewn arddull Duduraidd, addurniadau cerrig Art Nouveau, rendr cast garw a rendr llyfn neu gro chwipio. Mae gan nifer o'r adeiladau derfyniadau teracota ar gribau neu dalcenni'r to.

- O dan y talcenni amlwg ceir ffenestri bae dwbl, fel arfer gyda grwpiau o ffenestri yn y canol ac ar y naill ochr. Ceir hefyd enghreifftiau o faeau sydd wedi'u rhannu'n fwy o segmentau, fel arfer ar gorneli'r adeiladau. Mae'r baeau'n aml wedi'u haddurno ag estyll tywydd ffasgia rhwyllog neu deils cen pysgod.

- Ceir nifer o dyrau cornel amlonglog, gyda theils plaen, teils cen pysgod a cheiliogod gwynt haearn bwrw ar eu toeau. Mae'r defnydd o haearn bwrw hefyd yn rhoi gwedd ddiddorol i nifer o bortshys a ferandas.

- Mae gan rai o'r tai orffeniad rendr a fframiau ffenestri dur. Fel arfer, tai diweddarach yw'r rhain sy'n adlewyrchu newid yn yr arddull adeiladu tuag at steil Art Deco neu steil Rhyngwladol, wrth i'r ardal ddatblygu yn ystod y cyfnod diweddarach hwnnw.

- Gan fod yr adeiladau wedi'u lleoli yn ôl o'r ffordd, mae'r gerddi ffrynt, y waliau ffiniol a'r pileri i gyd i'w gweld yn amlwg o'r stryd. Mae rhai o'r waliau wedi'u hadeiladu o gerrig i uchder gwahanol, er bod y rhan fwyaf yn isel ac wedi'u hadeiladu o gerrig llanw neu o frics coch cywasgedig, gyda chopin wedi'i fowldio.

### 3.5.1 Rendr

Mae rendr yn gyffredin drwy'r ardal, ac i'w weld ar dai sy'n dyddio'n ôl i'r 1920au. Fe'i defnyddir yn aml gyda brics neu fframiau pren. Mae rhai o'r adeiladau mwy diweddar, o'r cyfnod rhwng y rhyfeloedd, yn defnyddio brics mewn motiffau art deco, er enghraifft drwy ddefnyddio 'zigurrat' neu waith brics geometrig o amgylch y drysau a physt y gatiau, neu addurniadau haul ar y gatiau a'r ffenestri.

### 3.5.2 Brics Coch Cywasgedig

Yn ganolog i gymeriad yr ardal a'i dai cynharaf mae'r brics coch cywasgedig ar y tai, y simneiau, y waliau ffiniol a'r copins. Mae rhai o'r adeiladau mwy diweddar,

o'r cyfnod rhwng y rhyfeloedd, yn defnyddio brics mewn motiffau art deco, er enghraifft drwy ddefnyddio 'zigurrat' neu waith brics geometrig o amgylch y drysau a physt y gatiau, neu addurniadau haul ar y gatiau a'r ffenestri.

## 3.5.3 Tywodfaen Pennant

Mae hwn yn anghyffredin yn yr ardal ac eithrio ar waliau blaen ac ochr.

## 3.5.4 Carreg Caerfaddon

Defnyddir carreg Caerfaddon fel arfer ar y ffenestri ac fel deunydd adeiladu addurnol o amgylch y ffenestri a'r portshys. Mae hyn yn arbennig o amlwg ar y tai sengl yn Cefn Coed Road, a'r tai mwy o faint ar Lake Road East, er enghraifft 'Tower House' a 'Cartref'.

## 3.5.5 Toeau, Talcenni, Simneiau a Chyfarpar Dŵr Glaw

Gan fod y tai wedi'u cynllunio i roi'r golygfeydd gorau o'r llyn a'r gerddi, maent yn defnyddio baeau a thalcenni, neu ffenestri oriel bychain gyda nodweddion addurnol. Mae fframiau pren a rendr haearn bwrw, cladin teils a gwaith carreg addurnol i gyd i'w gweld ar yr holl adeiladau o amgylch y llyn.

## 3.5.6 Ffenestri a Drysau

Mae ffenestri'n rhan amlwg o waliau'r adeiladau. Mae ffenestri dalennog a ffenestri adeiniog fertigol pren yn elfen bwysig o ffasadau'r adeiladau, ac yn cyfrannu'n sylweddol at y manylion bach. Mae gwydr lliw ac addurnol yn y ffenestri a'r drysau yn gyffredin drwy'r ardal ac wedi cael gofal da. Maent yn gyffredin ar ffenestri sefydlog uchaf y baeau a'r ffenestri, ar ddrysau ffrynt ac ar waliau ochr tai mawr, a hynny mewn patrymau gwydr amryliw, yn aml mewn arddull art nouveau neu art deco.

Mae'r rhan fwyaf o'r drysau yn wynebu'r stryd neu ar y wal ochr. Ceir manylion addurnol ar y drysau ac o'u hamgylch gan gynnwys gwydr lliw, ffenestri ochr, portshys mynediad crwn, a dolenni, curwyr, clychau a bocsys llythyrau addurnol.

## 3.5.7 Ansawdd yr Adeiladau

Canfu arolwg o ansawdd yr adeiladau yn hydref 2007 bod gan dros 50% o'r ardal ei nodweddion gwreiddiol o hyd; ond mae manylion pwysig fel drysau a ffenestri wedi diflannu. Y newid sydd wedi cael yr effaith fwyaf yw rhoi ffenestri a drysau gwydr dwbl upvc sy'n agor ar golynnau yn lle'r hen rai pren. Mae gan rai tai ddrysau a phortshys eraill hefyd. Er gwaethaf hyn, mae amrywiaeth ac arddull gwaith adeiladwyr cyntaf yr ardal yn dal i'w gweld.

Y newid arall amlwg yw'r newid i'r toeau. Mae dormeri neu ffenestri to wedi'u hychwanegu i doeau blaen yr adeiladau, gan newid goleddf y toeau llechi sy'n amgylchynu'r llyn a'r parc.









- Defnyddir cerrig Caerfaddon yn fframiau i'r drysau a'r ffenestri.
- Rendr a phren wedi'u peintio.
- Mae dormeri addurnol yn edrych dros y llyn.
- Brics coch a thoeau llechi

# 3.6 Tirlunio Caled a Meddal o Ansawdd Uchel

Nodwedd tirwedd amlycaf yr ardal yw'r dyffryn graddol sy'n gartref i Barc y Rhath. Mae'r holl barc wedi'i ddynodi'n Barc gradd I ac wedi'i restru gan Cadw ac ICOMOS UK yn eu Cofrestr o Dirluniau, Parciau a Gerddi o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig yng Nghymru. Mae'n un o'r parciau cyhoeddus Fictoraidd gorau yn y wlad.

Llyn y Rhath yw nodwedd fwyaf ysblennydd yr Ardal Gadwraeth, ac mae'n hawlio'r sylw a'r golygfeydd o bob cyfeiriad. Tua'r gogledd ceir Gerddi Gwyllt y Rhath, sy'n ardal heb ei ffensio o goetir a llwybrau cerdded anffurfiol. Mae yno ganopi sylweddol o goed aeddfed a phrysglwyni oddi tanynt.

Ceir hefyd y gerddi, coed, llwyni a phrysglwyni sydd yr un mor bwysig i gymeriad yr ardal. Mae'r gerddi sy'n edrych dros y llyn ar y cyfan yn rhai eang a dyfn, gan adlewyrchu statws yr adeiladau y tu ôl iddynt. Tua'r de, ble mae'r tai yn sefyll yn uchel uwch y ffordd, mae gan y gerddi waliau cynnal gyda grisiau a gatiau wedi'u torri iddynt. Mae'r rhan fwyaf o'r gerddi mewn cyflwr da. Yn aml mae ganddynt gloddiau a phlanhigion ar hyd eu ffiniau blaen, ac maent yn cyfrannu'n sylweddol at wyrddni'r ardal.

Mae nifer o'r coed yng ngerddi Cefn Coed Road wedi'u diogelu gan orchmynion cadw coed, ac ynghyd â'r cloddiau sylweddol a'r prysglwyni ar ffiniau'r plotiau, maent yn rhoi haen o wyrddni yn gefndir i'r tai.









- Y Gerddi Gwyllt
- Tai sy'n gefndir i'r llyn a'r parc

# 4 ardaloedd a chymeriad arbennig

Mae tair ardal a chanddynt gymeriad a phwysigrwydd gwahanol wedi'u nodi;

## Y tai o amgylch y llyn

- Mae'r tai o amgylch y llyn yn nodweddiadol o'r cyfnod rhwng y rhyfeloedd. Maent wedi'u hadeiladu mewn grwpiau neu barau, gyda'u harddull a'u haddurniadau pwrpasol eu hunain. Mae'r dull yn adlewyrchu cyfnod adeiladu ble rhoddid gwerth uchel ar berchnogaeth breifat ac unigoliaeth, yn wahanol i faestrefi Caerdydd cyn y rhyfel a'u terasau rheolaidd.

- Mae'r rhan fwyaf o'r plotiau wedi'u gosod i ddarparu mynediad drwy'r ochr i'r ardd gefn. Mae'r tai yn rhai deulawr, ac yn ddwy ystafell o ran hyd – cynllun sy'n nodweddiadol o dai traddodiadol cyn y rhyfel.

- Mae'r duedd i adeiladu grwpiau o dai pâr yn pwysleisio'r unigoliaeth yn yr arddull, a hynny'n aml drwy doeau neu faeau talcennog sy'n creu waliau neu grwpiau cymesur a mwy trawiadol.

- Mae nifer o blotiau sengl i'r dwyrain o'r llyn. Fel arfer, mae ganddynt fynedfa ar yr ochr gyda garej ar wahân.

## Materion Perthnasol:

- Mae nifer o'r gerddi wedi'u haddasu i roi rhagor o leoedd parcio, ar draul tirwedd y gerddi,

- Mae rhai o waliau'r gerddi wedi'u dymchwel er mwyn rhoi mynedfa i gerbydau,

- Mae nifer o blotiau gerddi wedi'u datblygu,

- Mae tuedd i adeiladu yn y toeau ac mae hynny'n newid eu siâp a'u hymddangosiad neu gymesuredd tai pâr,

- Mae gosod ffenestri newydd neu addasu ffenestri gydag upvc wedi golygu bod manylion pensaernïol gwreiddiol wedi diflannu,

- Mae'r traffig yn gyson drwy gydol y dydd ac mae'n amharu ar fynediad diogel i'r llyn a'r parc.

## Cyfleoedd i Wella:

- Hyrwyddo a chyhoeddi canllawiau ar gyfer gwneud gwaith adfer ac atgyweirio addas.

- Sicrhau bod waliau a chloddiau'n cael eu cadw wrth ystyried cynigion i ddatblygu.

- Cynnal archwiliad a diogelu gwell llwybrau i gerddwyr i'r parc a'r gerddi.







- Mae'r tai wedi'u cynllunio a'u lleoli i roi golygfeydd o'r llyn a'r parc.
- Cefn Coed Road: tai mawr gyda thir helaeth









• Gyda'i gilydd, mae'r Llyn, y Gerddi Gwyllt a'r Gerddi Botanegol yn ganolbwynt i'r Ardal Gadwraeth

# Cefn Coed Road

Cefn Coed Road oedd un o'r ardaloedd cyntaf i'w datblygu.

- Mae'r plotiau mawr yn golygu bod cynlluniau'r tai unigol yn amrywio.
- Mae gan y gerddi goed aeddfed a chloddiau, gyda'r holl wyrddni'n rhoi preifatrwydd i'r gerddi y tu ôl iddynt.
- Mae gan nifer o'r tai gorneli a thyrau addurnol sy'n gwella ansawdd y ffordd. Mae teils clai yn nodwedd gyffredin yn yr ardal.
- Mae Scott Court yn grŵp ar wahân o dai modern, sengl, wedi'u codi mewn brics brown neu lwyd. Mae coed cedrwydd aeddfed yn gwyro dros y ffordd o'u blaen.

## Materion Perthnasol:

- Bu tuedd i adeiladu yn y gerddi.
- Mae rhai o'r cloddiau a'r coed yn cyrraedd aeddfedrwydd erbyn hyn, ac mae angen rhai newydd yn eu lle.

## Cyfleoedd i Wella

- Hyrwyddo a chyhoeddi canllawiau ar gyfer gwneud gwaith adfer ac atgyweirio addas.
- Sicrhau bod waliau a chloddiau'n cael eu cadw wrth ystyried cynigion i ddatblygu.
- Cadw cymeriad a thirwedd yr ardal drwy ddiogelu coed, cloddiau a gerddi.

# Llyn a Gerddi Parc y Rhath

Mae'r parc, y llyn, y gerddi a'r nodweddion tirwedd yn hynod o bwysig i amwynder gweledol yr Ardal Gadwraeth.

Mae Rhaglen Partneriaeth Parciau'r Cyngor [a fabwysiadwyd ym mis Ionawr 2004] a'r Strategaeth Parciau a Mannau Gwyrdd [Mai 2007] yn nodi'r materion canlynol er mwyn rhoi sylw i gynnal a chadw a gofalu am y parc yn y tymor hir:

- Dirywiad nodweddion ac adeileddau hanesyddol,
- Y gwaith cynnal a chadw trwm sydd angen ei wneud ar bontydd, llwybrau cerdded a glannau nentydd,
- Mae nifer o goed y parc dros 100 mlwydd oed, ac mae angen rhoi sylw iddynt. Mae angen cynnal a chadw a gofalu am blanhigion a borderi sydd o ddiddordeb garddwriaethol.
- Ceir nifer o adeileddau modern yn y parc, sydd weithiau'n anaddas

Mae cynllun rheoli wedi'i baratoi gan y Cyngor i roi sylw i'r materion hyn a materion eraill sy'n ymwneud â defnyddio a mwynhau'r parc. Yn ddibynnol ar gyllid, bydd y cynllun yn ceisio rhoi sylw i'r canlynol:

- Y draeniau drwy'r parc, ac yn arbennig yr ardaloedd o dan yr argae,
- Difrod a fandaliaeth i adeileddau ac arddangosfeydd,
- Yr angen i ddiweddaru a gwella cyfleusterau i ymwelwyr, a'u cynllun drwy'r parc
- Y cyfleoedd i hyrwyddo a dehongli'r parc hanesyddol
- Diogelu'r cynefinoedd naturiol sy'n cael eu darparu gan y parc a'r llynnoedd
- Y cyfleoedd i gynnal digwyddiadau er budd y gymuned leol

# 5 fframwaith ar gyfer gweithredu

## 5.1 Cefndir

Mae adrannau blaenorol y gwerthusiad hwn yn disgrifio'r ansawdd sy'n creu cymeriad arbennig yr Ardal Gadwraeth, ac yn nodi'r potensial ar gyfer gwella'r ardal. Mae'r adran nesaf yn dangos sut y gellir defnyddio'r ddogfen.

## 5.2 Prif Bwrpas y Gwerthusiad

**Unwaith y caiff ei fabwysiadu, bydd y gwerthusiad a'r canllawiau'n cael eu defnyddio i wneud y canlynol:**

- Diffinio cynllun gwella i arwain y datblygiad o'r ardal.
- Bod yn sail i asesu ceisiadau cynllunio yn unol â'r Cynllun Datblygu Unedol (a adneuwyd).
- Gosod blaenoriaethau ar gyfer rheoli tir y cyhoedd yn y dyfodol.
- Rhoi canllawiau ar ansawdd arbennig yr ardal a sut i'w diogelu.

## 5.3 Manteision y Gwerthusiad

**Rhagwelir y bydd y gwerthusiad a fabwysiedir yn dod â'r manteision canlynol i'r ardal.**

- Cadw a gwella cymeriad arbennig yr Ardal Gadwraeth drwy gadw, gwella a chynnal a chadw'r nodweddion a nodwyd yn y gwerthusiad sy'n cyfrannu at ei chymeriad.
- Mwy o ymwybyddiaeth gyhoeddus a gwerthfawrogiad o gymeriad a hanes arbennig yr ardal.
- Rhoi canllawiau i berchnogion eiddo a phobl sy'n byw yn yr Ardal Gadwraeth.
- Darparu cymorth i berchnogion eiddo lleol ac i grwpiau, mentrau ac arweinwyr cymunedol yn eu hymdrechion i gadw a gwella'r Ardal Gadwraeth.
- Annog a chynghori ynghylch atgyweiriadau a gwelliannau cywir.
- Sicrhau bod unrhyw ddatblygiadau newydd yn parchu cymeriad yr ardal ac yn gweddu i'w ffurf a'i chynllun presennol.
- Creu cynllun gwella i arwain mwynhad o'r ardal yn y dyfodol.
- Sicrhau bod gwelliannau i dir y cyhoedd yn cael eu cyflawni gan barchu cymeriad arbennig yr Ardal Gadwraeth.

## 5.4 Pwysau i Newid

**Ceir pwysau a galw o bob math sy'n gallu amharu ar y gwaith o ddiogelu a gwella Ardaloedd Cadwraeth. Maent yn cynnwys:**

- Pwysau i addasu neu ehangu adeiladau, ac yn arbennig siâp a maint eu toeau.
- Pwysau i newid adeiladau a thai er mwyn cyflawni amcanion eraill, er enghraifft gwell effeithlonrwydd ynni a diogelwch tai.
- Colli tirwedd feddal a chaled gan gynnwys waliau ffiniol, cloddiau, gerddi a choed.
- Yr angen i roi mynediad i gerddwyr i'r parc ar y naill law, a'r traffig sy'n teithio trwy'r ardal ar y llall.
- Galw am lefydd parcio ar y stryd, a hynny'n amharu ar y traffig.
- Cynllun a lleoliad camau rheoli traffig, dodrefn stryd ac arwyddion hyrwyddo.
- Gwaith cynnal a chadw annigonol neu anaddas ar dai, nodweddion a llwybrau mynediad.

## 5.5 Cydweithio i Sicrhau Canlyniadau

### Perchnogion Eiddo a Datblygwyr

Y ffordd fwyaf effeithiol o wella Ardal Gadwraeth yw sicrhau bod y rheiny sy'n cynllunio gwaith neu ddatblygiadau yn deall cymeriad yr ardal. Mae Adran 4 y ddogfen hon yn amlinellu'r cymeriad hwnnw, a cheir canllawiau penodol yn Atodiadau 1 a 2 sy'n rhoi cyngor am ddiogelu'r cymeriad mewn cynlluniau datblygu. Ceir cyngor hefyd i'r rheiny sy'n ystyried gwneud gwaith atgyweirio a chynnal a chadw.

### Y Cyngor

Er mwyn gwella'r Ardal Gadwraeth, mae'n rhaid gweithio ar y cyd â Gwasanaethau eraill yn y Cyngor neu mewn partneriaeth â'r gymuned a chyrff cyhoeddus eraill.

Drwy'r cynlluniau canlynol, gallai'r Cyngor fod yn allweddol wrth ddylanwadu ar welliannau a'u rhoi ar waith.

- Mabwysiadu'r arweiniad a'r cynlluniau gwella a nodir yn Atodiad 1 a 2.
- Gan fod graddfa'r newid a nodwyd yn awgrymu na ellid cyfiawnhau hynny, argymhellir na ddylid diogelu ymhellach drwy Gyfarwyddyd Erthygl 4. Fodd bynnag, mae cyfle da i ddiogelu a gwella cymeriad yr ardal drwy roi arweiniad a chyngor ar gyfer atgyweirio ac adnewyddu nodweddion pensaernïol sy'n cyfrannu at gymeriad yr ardal.
- Rheoli cyllidebau presennol y Cyngor yn effeithiol,
- Gwella, atgyweirio ac ehangu llwybrau troed a ffyrdd a rheoli traffig

- Gwaith adfer ar goed sy'n eiddo i'r Cyngor, a phlannu coed newydd ble mae galw,
- Cynlluniau adnewyddu cymdogaethau,
- Rhoi'r Rhaglen Partneriaeth Parciau ar waith dros gyfnod o ddeng mlynedd,
- Hyrwyddo'r cysylltiad rhwng y parciau drwy wella'r llwybrau cysylltu presennol i gerddwyr.
- Hyrwyddo dealltwriaeth o arwyddocâd diwylliannol a hanesyddol yr Ardal Gadwraeth, a hynny drwy gysylltiadau ag ysgolion, llyfrgelloedd a grwpiau cymunedol,
- Monitro datblygiadau yn effeithiol er mwyn sicrhau cydymffurfio â deddfwriaeth gynllunio.

# 6 Argymhellion

**Mae'r argymhellion canlynol yn crynhoi canfyddiadau'r gwerthusiad a'r camau gweithredu y gellir eu cymryd ar ôl ei fabwysiadu.**

- Argymhellir cyhoeddi'r canllawiau yn Atodiadau 1 a 2 a'u dosbarthu i'r rheiny sy'n byw yn yr Ardal Gadwraeth neu sydd â diddordeb ynddi.
- Cadarnhau mai'r Gwerthusiad a'i argymhellion a'i flaenoriaethau gweithredu yw'r sylfaen ar gyfer mentrau corfforaethol yn yr Ardal Gadwraeth.
- Sicrhau bod y Gwerthusiad yn gweithredu fel fframwaith ar gyfer asesu ceisiadau cynllunio yn unol ag Adran 72 y Ddeddf.
- Sicrhau bod y gwerthusiad ar gael i'w astudio yn y llyfrgelloedd a'r ysgolion lleol.
- Cytuno ar gynllun priodol ar gyfer atgyweirio a chynnal a chadw er mwyn sicrhau bod gwaith a gynhelir ar dir y cyhoedd yn gydnaws â chymeriad yr Ardal Gadwraeth.

# 7 Ymgynghoriad

**Mabwysiadwyd y ddogfen hon yn dilyn ymgynghori lleol.**

Gellir cael manylion am adeiladau rhestredig ynghyd â dogfennau polisi eraill gan y Tîm Cadwraeth drwy ffonio 02920 873485.

# atodiad 1

## Canllaw Datblygu yn yr Ardal Gadwraeth

Mae'r fframwaith polisi ar gyfer y canllaw hwn wedi'i gefnogi gan Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990, Polisi Cynllunio Cymru 2002, Cylchlythyr 61/96, Cynllun Adnewyddu Strwythurol De Morgannwg (Ardal Caerdydd) 1991 - 2011 Mabwysiadwyd Ebrill 1997, Cynllun Lleol Dinas Caerdydd Mabwysiadwyd Ionawr 1996 a Datganiad Ysgrifenedig y Cynllun Datblygu Lleol Wedi'i Adneuo 2003, ac mae ganddynt oll bolisïau sy'n berthnasol i ddiogelu a gwella'r amgylchedd hanesyddol, gan gynnwys Ardaloedd Cadwraeth. Bydd y canllaw yn yr atodiad hwn hefyd yn cyd-fynd â pholisïau sy'n rhan o'r Cynllun Datblygu Lleol sydd ar y gweill, y Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer Canllawiau Cynllunio i Ddeiliaid Tai a Canllawiau Cynllunio Preswyl a choed a Datblygiadau.

Cyn gwneud gwaith i addasu adeilad neu i godi estyniad, mae'n bwysig cadarnhau gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol i weld a oes angen caniatâd cynllunio.

Mae gan Ardal Gadwraeth Llyn a Gerddi Parc y Rhath nifer fawr o adeiladau sydd gyda'i gilydd yn creu cymeriad yr ardal. Efallai y byddai gwneud mân addasiadau ac ychwanegiadau'n ymddangos yn ddibwys ynddynt eu hunain, ond wrth eu gweld gyda'i gilydd gallant gael effaith niweidiol ar nodweddion arbennig yr Ardal Gadwraeth. Mae'n bwysig bod addasiadau'n parchu cymeriad arbennig yr Ardal Gadwraeth.

Mae nodweddion arbennig yr Ardal Gadwraeth yn dibynnu ar yr ansawdd a ddisgrifir ym Mhennod 4. Dylai addasiadau ddiogelu'r ansawdd hwn a dylid ystyried atgyweirio ac ailgyflwyno'r nodweddion pan fyddant wedi'u difrodi neu wedi diflannu. Mae'r canllaw yn rhoi arferion da ar gyfer datblygu'r Ardal Gadwraeth, ac os bydd angen caniatâd cynllunio, yr egwyddorion ar gyfer y cynlluniau.

## Waliau Allanol

Mae nifer o adeiladau eisoes wedi peintio dros gerrig Caerfaddon. Wrth beintio dros y rhain, dylid gwneud hynny mewn lliw sy'n cyfateb yn agos i'r garreg Gaerfaddon wreiddiol. Mae gwyn a melyn yn lliwiau anaddas i'w peintio ar garreg. Bydd angen caniatâd cynllunio ar gyfer unrhyw addasiadau sy'n cynnwys defnyddio cladin.

## Ailbwyntio

Er nad oes angen caniatâd cynllunio wrth ail-bwyntio adeilad sydd heb ei restru yn yr Ardal Gadwraeth, mae'n bwysig ystyried y canlynol: dylid paratoi'r uniadau'n briodol, dylid defnyddio mortar calch newydd sydd yr un lliw ac o'r un gwead â'r gwreiddiol a dylid adlewyrchu proffil a gorffeniad y gwaith gwreiddiol mor agos â phosibl. Ni ddylid defnyddio mortar sment gan y gall achosi difrod yn y tymor hir i ffabrig yr adeilad.

## Toeau a Thalcenni

Dylid cadw ac atgyweirio manylion addurnol ar y talcenni a'r toeau, fel teils crib, terfyniadau ac estyll tywydd addurnol. Bydd angen caniatâd cynllunio i gael gwared arnynt, ac ni fydd hyn yn dderbyniol fel arfer. Os yw'r manylion hyn wedi diflannu, anogir eu hailosod, gan y bydd hyn yn sicrhau bod nodweddion arbennig yr Ardal Gadwraeth yn cael eu cadw neu eu gwella.

Efallai y bydd angen caniatâd cynllunio i wneud gwaith ail-doi. Os yw'n bosibl, dylid cadw deunydd gwreiddiol y to. Os bwriedir rhoi to newydd, dylid asesu'r posibilrwydd o ailddefnyddio'r deunydd to gwreiddiol wrth i'r gwaith fynd rhagddo. Llechi a theils naturiol newydd neu rai wedi'u hadfer yw'r ffordd orau o gadw nodweddion arbennig yr adeilad a'r Ardal Gadwraeth ehangach. Fodd bynnag, mae llechi wedi'u hatgynhyrchu o ansawdd da yn dderbyniol o bryd i'w gilydd.

## Simneiau

Mae'n bwysig sicrhau bod camau'n cael eu cymryd i gadw gwaith carreg neu waith brics, uniadau, mortar a manylion fel potiau clai, hyd yn oed pan nad yw'r simneiau'n cael eu defnyddio mwyach. Efallai y bydd angen caniatâd cynllunio i ddymchwel simnai. Fel arfer, ni roddir hawl i gael gwared ar simnai sy'n cyfrannu at yr Ardal Gadwraeth.

## Cyfarpar Dŵr Glaw

Os yw'n bosibl, dylid cadw cwteri a pheipiau haearn bwrw ar waliau amlwg. Er nad oes angen caniatâd cynllunio i'w disodli, dylai'r rhai newydd fod mewn steil debyg er mwyn sicrhau bod nodweddion arbennig yr Ardal Gadwraeth yn cael eu cadw.

## Ffenestri Dormer a Ffenestri To

Mae angen caniatâd cynllunio i ehangu to, ymhle bynnag y mae hynny ar y to. Gall gosod ffenestri dormer ar waliau sy'n wynebu priffordd gyhoeddus ymddangos yn anaddas, a gallant amharu ar gymeriad yr Ardal Gadwraeth. Fel arfer, ni chaniateir gosod ffenestri dormer ar y waliau amlwg hyn, oni bai y gellir eu gosod mewn to sy'n bodoli'n barod heb amharu ar gymeriad y t neu gymesuredd pâr o dai.

Efallai y bydd ffenestri dormer ar ochr to, a'r rheiny'n fach ac yn defnyddio deunyddiau a manylion sy'n parchu cymeriad ac ymddangosiad yr ardal, yn dderbyniol. Mae rhagor o gyngor am gynllun dormeri i'w cael yn y 'Canllawiau Cynllunio Atodol' ar gyfer addasu cartrefi.

Mewn rhai adeiladau, mae dormeri'n cyfrannu'n sylweddol at yr Ardal Gadwraeth. Pan fydd angen ailosod neu roi ffenestri dormer newydd, dylid cael rhai sydd yr un fath. Mae'n annhebygol y bydd unrhyw gynnydd ym maint y ffenestr ddormer yn dderbyniol. Nid yw addasu ffenestr ddormer yn falconi yn nodweddiadol o'r Ardal Gadwraeth.

Boed y rheiny wedi'u caniatáu neu beidio, ni ddylai ffenestri to fod yn rhy amlwg a dylent barchu steil yr Ardal Gadwraeth, h.y. ni ddylent godi uwchben y llechi neu'r teils ar y to.

## Ffenestri a Drysau

Efallai y bydd angen caniatâd cynllunio i addasu neu i osod drysau a ffenestri newydd. Bydd modd i swyddog Rheoli Datblygu roi cyngor i chi am unrhyw ganiatâd sy'n angenrheidiol.

Os yw'n bosibl, dylid cadw'r ffenestri dalennog a'r drysau pren gwreiddiol, a'u hatgyweirio. Mae atgyweirio pren sy'n dirywio yn fwy cynaliadwy yn amgylcheddol ac yn aml yn rhatach nag ailosod yn llwyr, ac mae i hynny'r fantais o gadw cymeriad gwreiddiol yr adeilad. Mae gan y Tîm Cadwraeth restr o seiri lleol arbenigol sy'n gallu atgyweirio neu adnewyddu ffenestri a drysau pren.

Os bydd angen gosod ffenestri newydd, dylai eu hymddangosiad, eu deunydd a'u pwrpas gyfateb yn agos i'r gwreiddiol.

Os bydd angen caniatâd cynllunio, dim ond os ystyrir bod hynny'n cadw cymeriad yr Ardal Gadwraeth y ceir gosod ffenestri newydd yn lle'r rhai dalennog pren gwreiddiol. Sylwer bod ffenestri upvc yn aml yn anaddas oherwydd eu bod yn fwy trwchus ym mhob ffordd. Gall hyn olygu nad oes ganddynt yr ysgafnder sy'n nodweddiadol o ffenestri dalennog pren.

Pan fwriedir gwneud addasiadau i adeilad sydd heb ffenestri a drysau gwreiddiol, bydd ffenestri a drysau newydd sy'n debyg i ymddangosiad, deunydd a phwrpas y rhai gwreiddiol yn cael ei annog gan y byddant yn gwella cymeriad yr Ardal Gadwraeth.

Mae rhagor o gyngor am atgyweirio ffenestri a gosod rhai newydd ar gael mewn cyhoeddiad ar wahân, 'Atgyweirio a Ffenestri Newydd mewn Ardaloedd Cadwraeth' sydd ar gael gan y Tîm Cadwraeth neu ar wefan y Cyngor.

Ni ddylid addasu maint agoriadau drysau a ffenestri gan fod hyn yn debygol o amharu ar ymddangosiad yr adeilad

a'r grŵp y mae'n rhan ohono. Pan fydd addasiadau anaddas wedi'u gwneud, ac os bydd cyfleoedd datblygu ar gael, anogir ailosod patrymau ffenestri gwreiddiol.

Dylid cadw gwydr addurnol mewn ffenestri, drysau a phortshys. Os bydd gwydr addurnol wedi'i ddifrodi, dylid cael darn addas newydd yn hytrach na newid yr holl ffenestr.

Yn aml gellir cael gwell effeithlonrwydd ynni a lleihau sŵn neu ddrafft o ffenestri drwy ddulliau sy'n parchu'r ardal, fel cynnal a chadw ac atgyweirio'r ffenestri'n briodol ac yn rheolaidd, gosod ail haen o wydr, gosod stribedi drafft a defnyddio llenni trwchus.

## Portshys

Dylid cadw gwydr addurnol mewn ffenestri, drysau a phortshys. Pan fydd angen caniatâd cynllunio, mae cynlluniau datblygu sydd am gael gwared arnynt neu eu haddasu'n debygol o fod yn annerbyniol.

## Dyfeisiadau Ynni Adnewyddadwy, Offer Cyfathrebu ac Offer Diogelwch

Gallai gosod offer ychwanegol ar adeiladau, at ba ddefnydd bynnag, gael effaith sylweddol ar gymeriad yr Ardal Gadwraeth. Os oes angen caniatâd cynllunio, mae'n annhebygol y bydd offer o'r fath ar waliau ffrynt a waliau ochr amlwg yn dderbyniol. Mae waliau cefn neu dai allan yn aml yn lleoliadau mwy addas, cyn belled nad ydynt yn rhy amlwg nac yn niweidio cymeriad neu ymddangosiad yr Ardal Gadwraeth.

## Gerddi Ffrynt

Mae gerddi ffrynt sydd â glaswellt a phlanhigion yn nodweddion atyniadol sy'n cyfrannu'n sylweddol at yr Ardal Gadwraeth. Pan fydd angen caniatâd cynllunio, mae'n debygol y bydd yr angen i gadw'r cymeriad yn golygu na roddir grantiau i balmentu, tarmacio nac addasu gerddi ffrynt mewn ffordd anaddas. Os yw cynllun a manylion gwreiddiol yr ardd wedi diflannu, anogir eu hailgyflwyno.

## Ffiniau Ffrynt

Pan fydd y waliau ffiniol ffrynt yn dal i sefyll, bydd y rhain yn cael eu cadw mewn cynlluniau datblygu. Pan fyddant wedi diflannu, a phan fydd cyfleoedd datblygu'n caniatáu hynny, anogir eu hailgyflwyno.

Pan fwriedir creu cloddiau newydd fel rhan o gynllun tirlunio sy'n gysylltiedig â cheisiadau cynllunio, mae'n bwysig plannu rhywogaethau sy'n addas i'r Ardal Gadwraeth. Bydd Swyddogion Cadw Coed yr Awdurdod Lleol yn gallu rhoi cyngor am rywogaethau addas.

## Waliau Ffiniol Cefn

Ceir nifer o waliau cefn sy'n ffinio â'r lonydd gwasanaeth yn y cefn. Fel arfer, waliau 2 fetr o gerrig llanw cymysg neu frics coch cywasgedig ydynt. Dylai waliau newydd geisio adlewyrchu'r deunyddiau, yr uniadau, y mortar a dull pwyntio'r waliau gwreiddiol, neu ddefnyddio deunyddiau eraill o ansawdd da.

## Estyniadau a Datblygiadau Newydd

Boed y cynllun yn un traddodiadol neu fodern, er mwyn i ddatblygiadau newydd ac estyniadau i adeiladau presennol fod yn llwyddiannus mewn Ardal Gadwraeth, mae angen deall nodweddion arbennig yr Ardal Gadwraeth.

Dylai estyniadau i adeiladau presennol a datblygiadau newydd yn yr Ardal Gadwraeth gadw neu wella cymeriad ac ymddangosiad yr Ardal Gadwraeth drwy wneud y canlynol:

- Parchu ansawdd nodedig y lle, a fydd yn golygu parhau i ddefnyddio'r graen trefol presennol a'r rhythmau fertigol a llorweddol yn natur yr adeiladu.
- Cadw golygfeydd pwysig yr Ardal Gadwraeth.
- Parchu defnydd presennol y tir.
- Defnyddio deunyddiau a manylion pensaernïol o ansawdd yr un mor uchel â'r rheiny sydd yn yr adeiladau presennol.

Mae materion cynllunio mwy cyffredinol i'w hystyried hefyd. Er enghraifft, mae angen rhoi sylw i effaith datblygiadau ar amwynder cymdogion, yn arbennig o ran datblygiadau gormesol a cholli golau.

Ceir rhagor o wybodaeth a chanllawiau am Ardaloedd Cadwraeth ar wefan yr Awdurdod Lleol yn www.caerdydd.gov.uk neu drwy gysylltu â'r Tîm Cadwraeth ar (029) 2087 3485.

# atodiad 2

## Cyngor am Goed a Thirlunio

### Coeden

Mae coed yn cyfrannu at gymeriad arbennig yr Ardal Gadwraeth ac mae gan yr Awdurdod Lleol bwerau yn yr Ardal Gadwraeth i'w diogelu. Rhaid i chi wneud cais ysgrifenedig i gael caniatâd gan yr Awdurdod Lleol i drin coed. Yn benodol, rhaid i chi roi 6 wythnos o rybudd i'r Awdurdod Lleol o'ch bwriad i wneud y gwaith. Os na fydd yr Awdurdod Lleol yn ymateb o fewn chwe wythnos, gellir gwneud y gwaith beth bynnag heb hysbysu'r Awdurdod Lleol ymhellach. Gall llys barn roi cosbau difrifol am beidio â rhoi'r rhybudd hwn.
Bydd yr Awdurdod Lleol yn caniatáu gwaith os bydd hynny o fudd i'r coed, a gall ganiatáu gwaith hefyd os bydd y manteision yn fwy na'r difrod i'r coed. Os nad yw'r Awdurdod Lleol yn rhoi caniatâd, gall yr Awdurdod wneud Gorchymyn Cadw Coed i atal y gwaith.

Nid yw gwaith yn golygu dymchwel neu ladd coeden yn unig, ond hefyd tocio sy'n fwy na 7.5 centimedr (tua 3 modfedd) mewn diamedr, wedi'i fesur 1.5 metr (tua 5 troedfedd) uwch y tir neu wreiddiau neu ganghennau difrodol, boed yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. Er enghraifft, dylid gwneud cais os ydych chi'n bwriadu addasu lefel y pridd ger coed, neu osod wynebau anhydraidd, fel llwybr newydd. Byddai'n drosedd hefyd difrodi coed drwy lygru eu hamgylchedd, er enghraifft rhoi chwynladdwr dail llydan ar lawnt gyfagos. Mae sawl eithriad rhag gorfod cael caniatâd, yn enwedig yn achos coed sy'n marw, wedi marw, neu'n beryglus.
Fel arfer, bydd yn rhaid gosod coed newydd yn lle rhai sy'n cael eu torri'n anghyfreithlon. Os yw'r gwaith dan sylw yn ymwneud â datblygiad sydd angen caniatâd cynllunio, dylech gynnwys y manylion yn y cais cynllunio. Ni fydd angen i chi wneud cais ar wahân.

Os oes gennych chi goeden fawr neu amlwg, fe'ch cynghorir yn gryf i gael cyngor gan feddyg coed ar gyfer ei rheoli yn y tymor hir. Bydd yr Awdurdod Lleol yn rhoi ystyriaeth deg i farn meddyg coed cymwysedig wrth ystyried ceisiadau. Yr Awdurdod Lleol sy'n rheoli coed ar y briffordd ac mewn parciau, ac mae ganddo raglen reoli tymor hir o dan oruchwyliaeth tyfwr coed cymwysedig.

Os hoffech chi gael rhagor o wybodaeth am goed mewn Ardaloedd Cadwraeth neu Orchmynion Cadw Coed cysylltwch â Swyddog Cadwraeth Coed yr Awdurdod Lleol ar (029) 2087 3178.

# Adeilau Rhestredig yn yr Ardal Gadwraeth

Mae'r adeiladau canlynol ar Restr Cadw o Adeiladau o Ddiddordeb Pensaernïol neu Hanesyddol:

- Cofeb Scott sydd ym mhen deheuol y llyn, (Gradd II)
- Argae'r llyn gan gynnwys y llithrfeydd ar y naill ochr, (Gradd II)
- 3 Pompren dros Nant Lleucu yn y gerddi Botanegol, (Gradd II)

Mae gwybodaeth a chanllawiau ynghylch adeiladau rhestredig ar gael ar wefan y Cyngor yn www.caerdydd.gov.uk neu drwy gysylltu â Thîm Cadwraeth y Cyngor ar (029) 2087 3485.

# atodiad 4

## Adolygiad o'r Ffin

### Cefndir

Un o brif elfennau Gwerthusiad o Ardal Gadwraeth yw adolygu'r ffiniau i sicrhau bod yr Ardal Gadwraeth yn parhau i arddangos nodweddion pensaernïol a hanesyddol amlwg.

Mae'r asesiad hwn wedi canolbwyntio ar ardaloedd a allai gael eu cynnwys neu eu hepgor.

## Adolygiad o'r Ffin

Mae ffin yr Ardal Gadwraeth yn adlewyrchu'r rheswm dros ei dynodi yn 1976 a chynllun presennol y datblygiad hanesyddol hwn o amgylch y llyn a'r parc. Mae ffin Ardal Gadwraeth Llyn a Gerddi Parc y Rhath i'w gweld ar y Map isod;








- Yr argae a chofeb Scott
- Edrych tua'r de dros y llyn
- Caffi Terra Nova

### Map 1: Ardal Gadwraeth Gerddi a Llyn Parc y Rhath



# Ardaloedd a Ystyriwyd ar Gyfer eu Cynnwys:

## Ardaloedd i'r gogledd o'r ardal gadwraeth.

Mae gan yr ardal o amgylch yr Oval yn y gogledd gymeriad gwahanol. Mae'n cynnwys terasau cerrig a brics a adeiladwyd ar droad y ganrif, a nifer o dai pâr wedi'u rendro neu dai a byngalos brics brown. Yn fwy arwyddocaol, bu nifer o ddatblygiadau diweddar mawr yn yr ardal: tir ac adeiladau Ysgol Uwchradd Caerdydd, a'r bloc o fflatiau o'r enw Redwick House. Gyda'i gilydd, ynghyd â'r coetir sy'n cyd-redeg â Nant Fawr, mae'r rhain yn newid graddfa a chymeriad yr ardal, ac yn golygu nad yw'n addas ei galw'n ardal o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol. Fodd bynnag, mae parc hanesyddol yr Oval wedi'i ddiogelu drwy ei statws fel rhan o Barc a Gardd Gofrestredig Parc y Rhath. Mae'r polisi cynllunio a fabwysiadwyd yn golygu bod yn rhaid i ddatblygiadau newydd barchu lleoliad y parc. Mae'r Oval hefyd wedi'i gynnwys yn y Rhaglen Partneriaeth Parciau, sef strategaeth tymor hir i adfer parciau'r ddinas.

## Map 2 Ardal yr Oval : Llanisien





## Ardaloedd i'r dwyrain o'r Ardal Gadwraeth

Mae'r Ardal Gadwraeth yn ymestyn tua'r dwyrain i gynnwys nifer o dai sengl ar Cefn Coed Road. Er gwaethaf datblygiadau mewnol a dymchwel nifer o goed oedd wedi'u diogelu, mae'n dal yn addas dynodi rhan orllewinol Cefn Coed Road. Mae'r tai y tu ôl i Cefn Coed Avenue yn rhai mwy diweddar, ac am y rheswm hwn, ni chynigir ehangu ymhellach i'r dwyrain.

Mae cymeriad yr ardal ymhellach i'r dwyrain a'r gogledd-ddwyrain yn newid yn gyflym, ac yn cynnwys stad o dai a adeiladwyd i'r dwyrain o'r hen reilffordd a thros lechweddau Cyncoed.









- Yr Oval ac Ysgol Uwchradd Caerdydd
- Rhan uchaf y gerddi gwyllt
- Map cynnar o'r Oval
- Gerddi Jellicoe

# Ardaloedd i'r gorllewin o'r Ardal Gadwraeth.

Mae'r tai i'r gorllewin o'r ardal gadwraeth wedi'u codi gan roi cryn sylw i fanylder, gan barchu'r dirwedd sydd yn nhir y cyhoedd. Drwy'r holl ardal, mae ffyrdd coediog a lleiniau glaswellt llydan yn gwella'r ardal. Mae Jellicoe Gardens a Cunningham Close yn arbennig o atyniadol. Fodd bynnag, nid yw'r ardal mor bwysig i'r treflun â'r ardal sydd o amgylch y llyn, ac nid yw'r tai yn ddigon nodweddiadol i'w cynnwys yn yr ardal sydd wedi'i diogelu.

# Adolygiad o'r Ffin – Crynodeb

- Ni chynigir gwneud unrhyw newidiadau i ffin bresennol yr Ardal Gadwraeth.
- Mae gan ffin bresennol yr Ardal Gadwraeth yr un diddordeb a'r un ansawdd arbennig a arweiniodd at ddynodi'r ardal yn y lle cyntaf.
- Nid yw'r ardaloedd sy'n ffinio â'r Ardal Gadwraeth yn bodloni'r meini prawf ar gyfer eu cynnwys.







- Eastern Avenue
- Llun cynnar o'r llyn
- Llun cynnar o'r argae

# llyfryddiaeth a chanllawiau


- Cadw ac ICOMOS, Register of Landscapes, Parks and Gardens of Special Interest in Wales, Part 1: Parks & Gardens, Cadw, Caerdydd, 2000.
- Calloway, S. (Gol.), Elements of Style: An Encyclopaedia of Domestic Architectural Detail, Mitchell Beazly, Llundain, 2005.
- Cyngor Dinas Caerdydd, Cynllun Lleol Dinas Caerdydd: Mabwysiadwyd, Cyngor Dinas Caerdydd, Caerdydd, 1996.
- Cyngor Sir Caerdydd, De Morgannwg (Ardal Caerdydd): Cynllun Adnewyddu Adeileddau 1991 – 2011, Cyngor Sir Caerdydd, Caerdydd, 1997.
- Dinas a Sir Caerdydd, Cynllun Datblygu Unedol Caerdydd (hyd at 2016): Datganiad Ysgrifenedig Wedi'i Adneuo, Dinas a Sir Caerdydd, Caerdydd, 2003.
- Dinas a Sir Caerdydd, Strategaeth Ardal Gadwraeth, Dinas a Sir Caerdydd, Caerdydd, 1997.
- Cyngor Sir Caerdydd. Rhaglen Partneriaeth Parciau. Ionawr 2004
- Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990.
- Long, H., The Edwardian House: The Middle-Class Home in Britain 1880-1914. Manchester University Press, Manceinion, 1993.
- Oliver P 'Dunroamin; The Suburban Semi and its enemies, Hutchinson Publishing Group 1981
- Newman, J., The Buildings of Wales: Glamorgan, Penguin Books, Llundain, 1995.
- Wedd, K., The Victorian Society Book of the Victorian House, Aurum Press Limited, Llundain, 2002.
- Llywodraeth Cynulliad Cymru, Polisi Cynllunio Cymru, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd, 2002.
- Y Swyddfa Gymreig (1996), Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 61/96.


## Diolchiadau


Cadw

Grŵp Cynghori Ardaloedd Cadwraeth Dwyrain Caerdydd

Archifdy Morgannwg

Trigolion Ardal Gadwraeth Gerddi a Llyn Parc y Rhath

Cymdeithas Hanes Lleol y Rhath.

Am fanylion cyswllt a gwybodaeth:

Y Tîm Cadwraeth
Cynllunio Strategol a’r Amgylchedd
Dinas a Sir Caerdydd, Ystafell CY4,
Neuadd y Sir, Glanfa Iwerydd,
Caerdydd. CF10 4UW.
Ffôn: (029) 2087 3485